



## Ysgol Pentreuchaf

### 93. Polisi Gwaith Cartref

#### Nod

Defnyddio'r amser sydd ar gael i blant (a rhieni) gartref i ddatblygu eu sgiliau a goresgyn unrhyw anawsterau. Atgyfnerthu'r dysgu a'r addysgu.

#### Amcanion

1. Datblygu cyfrifoldeb, dyfal-barhad y plant a'u gallu i fod yn hunan-ddisgybledig.
2. Sicrhau amser i ymarfer sgiliau sydd wedi eu dysgu yn y dosbarth.
3. Rhoi cyfle i rieni (ac oedolion eraill) fod yn rhan o waith y plant.
4. Gweithredu cynllun darllen gartref.
5. Hyrwyddo a datblygu amcanion yr ysgol drwy gydweithrediad a chefnogaeth rhieni a gwarchodwyr.

#### Canllawiau

1. Sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad y cartref i hybu gwaith y plant – gweler y Polisi Cytundeb Cartref Ysgol hefyd.
2. Gellir gosod gwaith na chafodd ei gyflawni mewn amser rhesymol yn yr ysgol fel gwaith i'w orffen gartref.
3. Gosod gwaith ychwanegol i ddileu gwendid neu i ganolbwyntio ar agwedd arbennig o waith.
4. Ambell dro bydd gweithgarwch yn gofyn am ymchwilio a gwybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.
5. Ni fydd gwaith cartref yn cael ei amserlennu a gosodir terfynau amser realistig a hyblyg gan y gall amrywio yn arw o bryd i'w gilydd ac o blentyn i blentyn. Dylai'r rhieni/plant sicrhau eu bod yn dod a'u llyfrau cofnodi gwaith cartref bob dydd i'r ysgol.
6. Disgwylir i blant Meithrin a Derbyn gymryd rhan yn y Cynllun Darllen Gartref. Weithiau bydd yr athrawes yn yn trafod gyda'r rhieni yr angen i ddatblygu sgiliau penodol e.e. dweud llythyren yn gywir e.e. 'll' nid 'ch' yn 'llaw', gwisgo'n annibynnol a.y.y.b. fel bo'r angen.
7. Mae'r Cynllun Darllen Gartref yn rhan o'r gwaith cartref drwy'r ysgol a cheisir cydweithrediad rhieni trwy eu hannog i arwyddo'r llyfr cofnodi yn wythnosol.
8. Gyda dyfodiad technoleg gwybodaeth, gellir cyflwyno gwybodaeth i rieni am safweoedd defnyddiol a datblygiadau yn y maes.
9. Dylid cyflwyno'r gwaith cartref yn ôl i'r athro/athrawes ddisbarth.
10. Bydd athrawon yn rhoi adborth i'r plant ar waith cartref pan fo angen – ar lafar neu yn ysgrifenedig.

#### Casgliad

Bydd llwyddiant y cynllun gwaith cartref yn ddibynnol ar gyd-weithrediad effeithlon ysgol/cartref. Mae gwaith cartref yn ffynhonnell anatod i ddatblygiad academiaidd a hunan-ddisgyblaeth pob plentyn.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_